

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**



**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod rhithiol o'r **PWYLLGOR ARCHWILIO** yn cael ei gynnal  
**DDYDD LLUN 18 RHAGFYR 2023** am **09.30 o'r gloch** ar **Zoom**.

Yr eiddoch yn gywir,  
Gareth Owens  
Clerc

---

**AGENDA**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datganiadau o Fuddiant**

**3. Hysbysiad o Faterion Brys**

Hysbysiad o'r eitemau y dylid, yn ôl y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**4. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2023**

**5. Materion yn Codi**

**6. Diweddariad Craffu ar y Gyllideb**

**7. Diweddariad Rheoli'r Trysorlys**

**8. Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol**

**9. Adolygiad Rheoli Presenoldeb a'r Gyflogres**

**10. Ardystio ar gydymffurfio â gofynion asesu perfformiad LGM 2009**

**11. Materion Brys**

Ystyried unrhyw eitemau y mae'r Cadeirydd wedi'u pennu yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

**RHAN II**

Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 yn Rhan 4 o Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**12. Dim**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**  
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod **Pwyllgor Archwilio** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn rhithiol ar Zoom ddydd Llun 18 Medi 2023. Dechreuodd y cyfarfod am 09.30 o'r gloch.

**Cynghorydd**

Mark Young (Cadeirydd)

Gwynfor Owen (Dirprwy  
Gadeirydd)

Michelle Blakeley-Walker

Arwyn Herald Roberts

Tina Claydon

Bryan Apsley

John Brynmor Hughes

Marc Jones

Beverley Parry-Jones

Austin Roberts

Jeff Evans

Adele Davies-Cooke

**Yn Cynrychioli**

Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Gwynedd

Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Gwynedd

Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyngor Gwynedd (gadawodd am  
10.04am)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyngor Sir y Fflint

**Hefyd yn bresennol:**

Helen MacArthur

Dafydd Edwards

Gareth Owens

Mike Whiteley

David Tomalin

Anne-Marie Harrop

Angharad Ellis

George Jones

Ffion Evans

Steve Morris

Stephen Kitching

Paul Roberts

Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC)

Y Trysorydd

Y Swyddog Monitro

Archwilio Cymru

Archwilio Cymru

Mersey Internal Audit Agency

Mersey Internal Audit Agency

Atebol – Cyfieithydd

Cynorthwydd Gweithredol

Pennaeth TGCh

Arlingclose

Arlingclose

**1 YMDDIHEURIADAU**

**Cynghorydd**

Cynghorydd Marion Bateman

**Yn Cynrychioli**

Cyngor Sir y Fflint

**YN ABSENNOL**

**Cynghorydd**

**Yn Cynrychioli**

## **ENWEBU CADEIRYDD**

Cyn dechrau'r cyfarfod, cadarnhaodd Gareth Owens fod y Cynghorydd Nigel Smith wedi ymddiswyddo o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn dilyn ei benodiad i Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Enwebwyd y Cynghorydd Mark Young i gael ei ethol yn Gadeirydd gan y Cynghorydd Austin Robert, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Michelle Blakeley-Walker. Pleidleisiwyd ar yr enwebiad a phenodwyd Mark Young yn Gadeirydd am weddill y flwyddyn.

Diolchodd y Cynghorydd Mark Young i'r pwyllgor a diolchodd i'r Cynghorydd Nigel Smith am ei waith.

### **PENDERFYNWYD:**

- i) Penodi Mark Young yn Gadeirydd ar unwaith**

## **ENWEBU DIRPRWY GADEIRYDD**

Cyflwynwyd enwebiadau ar gyfer y Dirprwy Gadeirydd. Enwebwyd y Cynghorydd Gwynfor Owen i fod yn Ddirprwy Gadeirydd gan y Cynghorydd Roberts, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Michelle Blakeley-Walker.

Penderfynwyd yn unfrydol i benodi'r Cynghorydd Gwynfor Owen yn ddirprwy gadeirydd.

### **PENDERFYNWYD:**

- i) Penodi Gwynfor Owen yn Ddirprwy Gadeirydd ar unwaith**

## **2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Ni chofnodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant. Enwebu Cadeirydd

## **3 HYSBYSIAD O FATERION BRYD**

3.1 Nid chafwyd unrhyw hysbysiad o faterion brys.

Nododd Mark Young y byddai diweddariad cyflym am yr ymgynghoriad yn cael ei ychwanegu ar ddiwedd y cyfarfod.

## **4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 19 MEHEFIN 2023**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2023 i'w cymeradwyo.

#### 4.2 **PENDERFYNWYD:**

- i) **cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd.**

### 5 **MATERION SY'N CODI**

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

### 6 **SESIWN HYFFORDDI – CYFLWYNIAD I WAITH RHEOLI'R TRYSORLYS**

6.1 Cafodd yr aelodau sesiwn hyfforddi gan Stephen Kitching a Paul Roberts o Arlingclose, ymgyngorwyr Rheoli Trysorlys yr Awdurdod. Cafodd yr aelodau gyflwyniad manwl i'r gwaith sydd ar y gweill rhwng Arlingclose a'r Gwasanaeth.

6.2 Diben yr hyfforddiant oedd gwella dealltwriaeth yr Aelodau o'r cefndir ac agweddau technegol ar waith rheoli trysorlys, gan gynnwys y trefniadau llywodraethu. Fe wnaeth y diweddariad amlygu'r angen i sicrhau bod y fframwaith llywodraethu yn gywir ac yn caniatáu craffu priodol. Dylai craffu gynnwys cwstyynu pa mor fforddiadwy a chynaliadwy yw trefniadau, gan gynnwys yr effaith o ran refeniw ar y penderfyniadau hyn dros amser.

6.3 Roedd yr hyfforddiant yn rhoi trosolwg economaidd, gan gynnwys y tueddiadau tymor hwy o ran chwyddiant a chyfraddau llog. Nododd yr Aelodau nifer o feysydd, gan gynnwys y risgiau tymor hwy sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau'n ymwneud â'r cynllun cyfalaf a benthyca. Trafodwyd y posibilrwydd o ddiffygdaliad gan awdurdodau lleol eraill, a rhoddodd Arlingclose sicrwydd bod Llywodraeth y DU, trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, yn gweithredu fel y benthycwr pan fetha popeth arall.

6.4 Diolchodd yr Aelodau i Arlingclose am y cyflwyniad.

#### 6.5 **PENDERFYNWYD:**

- i) **nodi'r wybodaeth a roddwyd.**

### 7. **Y CYNLLUN ARCHWILIO GAN ARCHWILIO CYMRU**

7.1 Diben yr adroddiad oedd cadarnhau Cynllun Archwilio 2023, sy'n manylu ar ddull archwilio Archwilio Cymru a'r gwaith y maent am ei wneud fel archwilwyr statudol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

7.2 Derbyniodd yr Aelodau y wybodaeth ddiweddaraf am y dull o ymdrin â datganiadau ariannol yr Awdurdod, gan gynnwys y meysydd ffocws

penodol. Nodwyd nad oedd y gwaith a wnaed hyd yma wedi amlygu unrhyw faterion arwyddocaol yn gysylltiedig â chyflwyno'r system ariannol newydd.

- 7.3 Clywodd yr Aelodau bod yr Archwiliad ar y trywydd iawn, ac nad oeddent yn rhagweld unrhyw faterion a fyddai'n atal y cyfrifon sy'n cael eu harchwilio rhag cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2023. Nodwyd bod Tîm Cyllid y Gwasanaeth wedi rheoli'r broses bontio o CBS Conwy yn dda, a bod ymholiadau yn cael sylw mewn modd adeiladol ac amserol.
- 7.4 Rhoddwyd diweddariad cryno ar y gwaith cynllunio perfformiad a nodwyd cysylltiadau allweddol.
- 7.5 Nodwyd y ffi archwilio o £72,237, sy'n gynydd o 3.6%. Roedd y cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn llai na'r cynnydd ar sail chwyddiant a oedd wedi'i gynnwys gyda chynllun ffioedd Archwilio Cymru.

7.3 **PENDERFYNWYD:**

- i) **nodi cwmpas y gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru heb unrhyw faterion yn codi; a**
- ii) **chydabod y gwaith a wnaed gan Adran Gyllid y Gwasanaeth wrth weithredu systemau ariannol newydd a chynhyrchu'r datganiadau ariannol.**

## **8 DIWEDDARIAD YNGHYLCH ARCHWILIO MEWNOL**

- 8.1 Rhoddodd MIAA adroddiad a oedd yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wnaed yn y cyfnod rhwng 20 Mehefin 2023 a 18 Awst 2023. Cadarnhawyd bod y gwaith ar drefniadau'r Gyflogres a Rheoli Presenoldeb wedi dechrau. Nodwyd hefyd bod MIAA wedi gwneud gwaith ar adolygu polisïau mewn perthynas â thwyll, llygredd a llwgrwobrwyo, a'u bod yn cefnogi'r Gwasanaeth mewn perthynas â'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI).
- 8.2 Cyflwynwyd y Siarter Archwilio Mewnol gan Angharad Ellis o MIAA, a rhoddodd drosolwg i'r aelodau.

8.5 **PENDERFYNWYD:**

- i) **nodi'r adroddiadau a ddarparwyd yn ogystal â'r gwaith a wnaed gan MIAA hyd yma; a**
- ii) **nodi cynnwys y Siarter Archwilio Mewnol**

## **9 ADRODDIAD DIWEDDARU RHEOLI'R TRYSORLYS**

- 9.1 Diben yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith rheoli'r trysorlys, yn ogystal â chydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus o ran rheoli'r trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 30 Mehefin 2024.
- 9.2 Prif Swyddog Tân Cynorthwyol MacArthur a gyflwynodd yr adroddiad, oedd yn cadarnhau'r heriau economaidd, gan gynnwys ansicrwydd ynghylch cyfraddau llog. Nodwyd bod lefelau benthyca'r Awdurdod yn is na'r gofyniad cyllido cyfalaf, a hynny oherwydd y defnydd o adnoddau mewnol.
- 9.3 Nododd yr Aelodau fod arian dros ben yn cael ei gadw at ddibenion cyfalaf gweithio yn unig, a'i fod yn cael ei adneuo er mwyn caniatáu iddo allu cael ei ddefnyddio ar unwaith. Cadarnhaodd PSTC MacArthur bod cyfrif gyda'r Swyddog Rheoli Dyledion (Trysorlys y DU) wedi'i agor er mwyn caniatáu i adneuo'n gael eu gwneud a fyddai'n lleihau ymhellach amlygiad yr Awdurdod i fanciau'r DU.
- 9.4 **PENDERFYNWYD:**
- i) bod yr aelodau'n nodi gweithgareddau rheoli'r trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 30 Mehefin 2023**

## **10 DIWEDDARIAD CAFFAEL**

- 10.1 Diben yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y trefniadau caffael o fewn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Eglurodd PSTC MacArthur mai adroddiad newydd oedd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor oedd hwn, a hynny ers penodi'r Rheolwr Caffael a Chontractau ym mis Chwefror eleni.
- 10.2 Rhoddodd PSTC MacArthur y wybodaeth ddiweddaraf am yr amgylchedd deddfwriaethol a rheoleiddiol, gan gynnwys datblygiadau o ran dyletswyddau caffael sy'n gymdeithasol gyfrifol.
- 10.3 Rhoddwyd cyngor i'r Aelodau ynghylch gweithgareddau caffael yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2023 ac Awst 2023 a'r dulliau caffael a fabwysiadwyd.
- 10.4 Cafodd yr amgylchedd gweithredu ei nodi gan yr Aelodau, a gwnaethant sylwadau ar yr angen am dryloywder o ran dull gweithredu'r Awdurdod wrth sicrhau bod cyflenwyr lleol yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn trefniadau caffael
- 10.5 **PENDERFYNWYD:**

- i) nodi'r adroddiad a'r gweithgaredd cysylltiedig; a**
- ii) gofyn bod adroddiadau'n darparu rhagor o wybodaeth yn y dyfodol am sut roedd yr Awdurdod yn perfformio yn erbyn y gofynion polisi.**

## **11 CYNNIG I SEFYDLU GWEITHGOR CRAFFU CYLLIDEB**

- 11.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur yr adroddiad, ac amlinellodd i'r Aelodau'r cynigion i ffurfio gweithgor Aelodau a fyddai'n craffu ar y gyllideb ac yn darparu sicrwydd. Bydd y grŵp wedi'i ffurfio o aelodau o'r Pwyllgor Archwilio, ac yn cael ei gadeirio gan gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.
- 11.2 Byddai Trysorydd yr Awdurdod yn cynorthwyo'r Aelodau i wella eu dealltwriaeth o'r trefniadau ariannol ac i graffu ar feysydd gwariant allweddol.
- 11.3 Cynigiwyd y byddai'r gweithgor yn cynnal 4 cyfarfod rhwng mis Hydref a mis Tachwedd. Byddai'r cyfarfodydd yn cynnwys trosolwg o'r Gyllideb, y Gyflogres, Gwariant Nad yw ar Gyflogau a Chyllido Cyfalaf; yn ogystal â chau a chytuno ar y camau nesaf
- 11.4 Roedd Dafydd Edwards yn cefnogi'r argymhelliad a chadarnhaodd y byddai hyn o gymorth i'r Awdurdod wrth osod y gyllideb. Rhoddodd Gareth Owens arweiniad mewn perthynas â chyfansoddiad y grŵp a chadarnhaodd y byddai'n briodol cael aelod o bob awdurdod lleol.
- 11.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) y dylid creu Gweithgor Craffu ar y Gyllideb gyda'r nod o graffu ar y gyllideb a rhoi sicrwydd; a**

**ii) chymeradwyo penodi un Aelod, ac un Aelod wrth gefn o bob awdurdod lleol cyfansoddol.**

## **12 MATERION BRYD**

- 12.1 Fel y nodwyd yn eitem 3 yr agenda, gofynnodd yr Aelodau am y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad ynghylch yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.
- 12.2 Mynegodd Mark Young nad dyma'r tro cyntaf i'r Aelodau orfod dysgu am y newyddion diweddaraf gan y wasg.
- 12.3 Dywedodd y Cynghorydd Jones nad oedd ganddo broblem gydag ymestyn yr amserlen, ond byddai wedi bod yn dda cael eglurhad ymlaen llaw. A allwn ni sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto a'n bod yn cael eglurhad?

12.4 Ymddiheurodd PSTC MacArthur gan nodi, er bod cyfathrebiad wedi'i ddrafftio, ei bod yn anffodus nad oedd hwn wedi cael ei ddsbarthu yn gynt. Gwnaed y penderfyniad i roi rhagor o amser i'r awdurdodau lleol cyfansoddol i gydymffurfio â'u trefniadau llywodraethu mewnol eu hunain cyn cyflwyno eu hymateb.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.19 o'r gloch

Adroddiad i	<b>Y Pwyllgor Archwilio</b>
Dyddiad	<b>18 Rhagfyr 2023</b>
Aelod Arweiniol	<b>Y Cynghorydd Mark Young</b>
Swyddog Arweiniol	<b>Dafydd Edwards, Trysorydd yr Awdurdod</b>
Swyddog Cyswllt	<b>Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol</b>
Pwnc	<b>Gweithgor Craffu ar y Gyllideb</b>



### **PWRPAS YR ADRODDIAD**

- 1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i aelodau'r Pwyllgor Archwilio ar waith y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb (y Gweithgor) a cheisio cymeradwyaeth yr asesiad cynllunio ariannol cyfredol er mwyn gosod cyllideb gytbwys gyfer 2024/25.

### **CRYNODEB GWEITHREDOL**

- 2 Mae gofyn i'r Awdurdod osod cyllideb referniw ar gyfer 2024/25 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 22 Ionawr 2024. Mae'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb wedi gwneud y gwaith craffu ar y broses o osod cyllideb ac yn cadarnhau asesiad cynllunio cyfredol o £49.194m (£44.4m ar gyfer 2023/24) sy'n gynydd blynyddol o 10.8%.

### **ARGYMHELLION**

- 3 Gofynnir i'r Aelodau:
  - (i) Nodi a chymeradwyo canfyddiadau'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb; gan gynnwys
  - (ii) y rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r gyllideb referniw ar gyfer 2024/25;
  - (iii) yr asesiad cynllunio ariannol presennol o ofyniad cyllidebol o £49.194m ar gyfer 2024/25;
  - (iv) y cynnig i geisio gwaith pellach i nodi cyfleoedd ar gyfer y gostyngiadau pellach mewn gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 a/neu ddefnyddio cronfeydd wrth gefn; a
  - (v) y rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2024/25 ymlaen.

### **CEFNDIR**

- 4 Bob blwyddyn mae'n ofynnol i'r Awdurdod bennu cyllideb referniw gytbwys y mae'n rhaid i'r Awdurdod llawn ei chymeradwyo. Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus (CIPFA) yn cydnabod y dylai fod gan sefydliadau gynlluniau ariannol sy'n dangos sut y bydd gwariant yn cael ei ariannu dros y tymor byr a'r tymor canolog.

- 5 Mae cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod yn y tymor byr, y tymor canolog a'r tymor hirach yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth am y ffactorau allweddol sy'n rheoli cost gan gynnwys gwerthuso risgiau ac ansicrwydd. Yn ganolog i hyn mae dealltwriaeth o ofynion gwasanaethau, yr adnoddau sydd ar gael a'r weledigaeth strategol yn y dyfodol.
- 6 Fel rhan o'r gwaith ar gyfer yr adolygiad o'r ddarpariaeth frys, cynhaliwyd asesiad cynllunio lefel uchel cychwynnol yn ystod mis Chwefror 2023 a amcangyfrifodd gynnydd posibl o £6m yn y gyllideb o un flwyddyn i'r llall. Mae hyn yn gynnydd o 13.5%, gyda 5% ohono'n mynd i'r afael â'r diffyg sylfaenol sy'n deillio o broses gosod cyllideb 2023/24. Nid yw'r camau a gymerwyd yn ystod y broses o osod cyllideb ar gyfer 2023/24 yn gynaliadwy gan fod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn yn barhaus.
- 7 Fel rhan o'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, cymeradwyodd yr Awdurdod Tân ac Achub (yr Awdurdod) nifer o opsiynau ar gyfer ymgynghori gan gynnwys dau opsiwn gyda newidiadau strwythurol a oedd yn lleihau gwariant cylchol hyd at £2.4m. Yn dilyn canlyniad yr ymarfer ymgynghori, cadarnhaodd yr Awdurdod mai Opsiwn 1 oedd yr opsiwn a ffafriwyd a oedd yn gofyn am gynnydd cyllidebol o £6m.
- 8 Er y bydd y gyllideb derfynol a gymeradwyir gan yr Aelodau yn seiliedig ar ganlyniad terfynol yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, mae gwaith y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb wedi'i seilio ar opsiwn 1, neu amrywiad sy'n gyfwerth â'r gost hwnnw, fel yr opsiwn terfynol.
- 9 Sefydlwyd y Gweithgor i graffu ar y broses o osod cyllidebau, gan gynnwys pob maes incwm a gwariant. Gydag aelodaeth o bob awdurdod lleol, mae'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb wedi cyfarfod ar bedwar achlysur rhwng Hydref a Thachwedd 2023, gyda sesiwn adborth pellach i'r holl Aelodau fel rhan o gyfarfod Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ar 4 Rhagfyr.
- 10 Bydd yr asesiad cynllunio ariannol cyfredol ar gyfer 2024/25 yn cael ei gyflwyno i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023. Bydd y papurau cyfarfod ar 18 Rhagfyr hefyd yn cynnwys dadansoddiad sensitifrwydd sy'n nodi effaith yr opsiynau ar gyfer yr adolygiad o'r ddarpariaeth frys a ystyrir gan yr Awdurdod.
- 11 Bydd y gyllideb refeniw ddrafft ar gyfer 2024/25, a luniwyd yn unol â chanllawiau'r Pwyllgorau ar 18 Rhagfyr, yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024.

## **GWYBODAETH**

- 12 Sefydlwyd y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb gan yr Awdurdod gyda chynrychiolaeth o bob awdurdod lleol cyfansoddol. Mae'r Gweithgor wedi cyfarfod ar bedwar achlysur ac wedi ystyried pob maes gwariant gan y Gwasanaeth Tân ac Achub.

- 13 Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 4 Hydref pan gyfunwyd ar y Cylch Gorchwyl (Atodiad 3) ac y gosodwyd y rhaglen waith. Gofynnodd yr Aelodau am wahodd archwilydd mewnol yr Awdurdod i gyfarfodydd yn y dyfodol i oruchwyllo'r broses a threfnwyd hyn o gyfarfod 2 ymlaen.
- 14 Derbyniodd y Gweithgor drosolwg o'r amgylchedd gweithredu ariannol gan gynnwys dyddiadau allweddol yng nghylch y gyllideb, cyfrifoldebau'r Awdurdod, y trefniadau llywodraethu mewnol a'r rheoliadau cymwys. Cafodd yr aelodau drosolwg hefyd o strwythur y gyllideb yn ôl y math o wariant, dadansoddiad o ddarparu gwasanaethau a chostau adrannol a gwariant cyfalaf. Darparwyd trosolwg hefyd o'r trefniadau ariannu, gan gynnwys ardoll yr awdurdod lleol, defnyddio grantiau Llywodraeth Cymru a chronfeydd wrth gefn yr Awdurdod.
- 15 Roedd cyfarfod 19 Hydref yn canolbwyntio ar y strwythur staffio mewnol a chostau cysylltiedig y gyflogres. Cafodd yr aelodau ddadansoddiad manwl fesur gorsaf/adran a gadarnhaodd fod y gyllideb wedi'i gosod ar sail 971 o aelodau o staff a oedd yn cynnwys cynnydd o 30 diffoddwr tân ar ddyletswydd a llenwi swyddi gwag. Mae'r gyllideb yn seiliedig ar swyddi unigol a lefelau gweithgarwch arferol ar gyfer staff ymateb gweithredol.
- 16 Trafododd yr Aelodau'r rhagdybiaeth gynllunio ar gyfer dyfarniad cyflog o 4% flwyddyn ar ôl blwyddyn a gofyn am eglurhad ar ba mor rhesymol yw hyn a'r goblygiadau pe bai'r dyfarniad cyflog gwirioneddol yn amrywio o'r rhagdybiaeth gynllunio. Derbyniodd y Gweithgor gadarnhad bod yr asesiad cynllunio o 4% ar gyfer dyfarniadau cyflog yn rhesymol a nododd fod y canrannau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol cyfansoddol yn amrywio o 3.5% i 5%. Nodwyd y byddai cynnydd o 1% yn y rhagdybiaeth yn cyfateb i £340k ac mae hyn yn parhau i fod yn risg i'r Awdurdod.
- 17 Nododd yr Aelodau hefyd y canlyniad heb ei ddatrys a oedd yn deillio o ailbriso cynllun pensiwn y diffoddwyr tân a'r risgiau a'r ansicrwydd o ganlyniad i hyn sy'n gysylltiedig â'r cynnydd disgwylidig i gyfraniadau'r cyflogwr.
- 18 Nododd yr Aelodau y byddai'r strwythur a rhagdybiaethau cynllunio staff arfaethedig yn gofyn am gynnydd o £3.9m mewn costau staff uniongyrchol. Ar gais yr Aelodau, gwnaed rhagor o waith a'i gyflwyno i gyfarfod 3 (6 Tachwedd) a oedd yn cynnwys dileu chwe swydd, gan gynnwys dwy swydd uwch a oedd ar y pryd yn wag, cael gwared ar swydd arfaethedig y cynllun mynediad uniongyrchol a'r swyddog cyfryngau digidol arfaethedig. Trafodwyd a meincnodwyd dileu'r ddwy swydd uwch yn erbyn sefydliadau eraill o fewn y sector. Er bod y Gweithgor yn cydnabod ei bod yn anodd asesu'r rhesymoldeb o ystyried cymhlethdod pob sefydliad a'r gwahaniaethau mewn rolau unigol, roedd y Gweithgor yn glir bod awdurdodau lleol cyfansoddol yn disgwyl arbedion effeithlonrwydd ac yn fodlon bod y Prif Swyddog Tân yn cefnogi'r cynigion i gael gwared ar y swyddi rheoli a gwasanaethau cymorth hyn.

- 19 Trafododd a chydabu'r Gweithgor yr angen i gynnwys cynnydd o 30 swydd o fewn y strwythur staff dyletswydd, a hefyd cefnogwyd cynnal gwydnwch 18 aelod o staff o fewn y system gwyllo amser llawn i sicrhau capasiti pe bai salwch ac ymddeoliadau. Cefnogodd y Gweithgor y cynnig i gadw'r gyllideb goramser ar gyfer staff amser llawn ar £100k, yn hytrach na chynyddu'r gyllideb goramser i £200k i adlewyrchu gwariant presennol. Mae'r camau a gymerwyd wedi arwain at ostyngiad o £0.5m a'r gyllideb arfaethedig gyfredol ar gyfer costau gweithwyr yw £35.2m.
- 20 Yn y trydydd cyfarfod ar 6 Tachwedd, canolbwyntiodd y Gweithgor ar wariant nad yw ar gyflogau gan nodi'r pwysau sylweddol o ran costau yn y maes hwn. Roedd y cynigion cychwynnol a gyflwynwyd yn dangos cynnydd o 18% i £13.4m gyda phwysau o fewn nifer o adrannau gan gynnwys TGCh, gweithrediadau technegol, cyfleusterau a fflyd. Derbyniodd y Gweithgor ddiweddariadau manwl gan dri phennaeth adran a nododd y pwysau gan gynnwys cynnydd o ran chwyddiant, blaenoriaethau iechyd a diogelwch i fynd i'r afael â risgiau o ran halogyddion ar gyfer staff gweithredol a phwysau galwadau.
- 21 Yn dilyn gwaith pellach, derbyniodd y Gweithgor asesiadau diwygiedig ar gyllideb nad yw'n gyflog o £12.7m yn ei gyfarfod ar 24 Tachwedd. Ystyriodd y Gweithgor y rhain ymhellach law yn llaw â'r cyllid cyfalaf, llog sy'n daladwy ar fenthycy, a chostau prydles (mewn perthynas â thir ac adeiladau, cerbydau, ac offer) gan roi cyfanswm asesiad cyllideb o £15.054m.
- 22 Ystyriodd cyfarfod 24 Tachwedd y gyllideb ariannu cyfalaf arfaethedig ar gyfer 24/25 a oedd yn £2.8m gan gynnwys costau llog o £0.9m. Y dybiaeth sylfaenol oedd y byddai cyfraddau llog yn aros yn debyg i'r lefelau presennol drwy'r rhan fwyaf o 2024, a'r asesiad cynllunio oedd i fenthyciadau yn y dyfodol gynnwys llog ar 5.25%, yn seiliedig ar gyngor cynghorwyr rheoli trysorlys yr Awdurdod. Nododd y Gweithgor fod y gost llog yn cynnwys yr angen i ailariannu benthyciadau sy'n cyrraedd aeddfedrwydd yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, fel yr adroddwyd yn flaenorol drwy adroddiadau diweddarau Rheoli'r Trysorlys. Cafodd cyllideb o £1.9m ei chynnwys ar gyfer yr isafswm darpariaeth refeniw, sy'n llai na'r rhagolwg yn dilyn adolygiad mewnol o'r cyfrifiadau manwl. Nododd y Gweithgor fod y costau cyllido cyfalaf mewn perthynas â'r ganolfan hyfforddi wedi'u dileu. Ar ben hynny, roedd llithriad yn y rhaglen gyfalaf yn ystod 2022/23 a 2023/24 wedi arwain at lai o ofynion cyllideb yn y maes hwn.
- 23 Yn dilyn cais gan y Gweithgor Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, gwnaed gwaith craffu pellach mewn perthynas â phrydlesau a gadarnhaodd fod gan yr Awdurdod eiddo ar brydles a 54 o gerbydau ar brydles. Mae'r eiddo ar brydles yn cynnwys y ganolfan reoli ar y cyd a feddiannir gan Heddlu Gogledd Cymru, sy'n darparu rhyngweithrededd. Cydnabu'r Gweithgor yr ymrwymadau parhaus a gofynnodd am gynnwys adolygiad o gerbydau nad ydynt yn rhai brys ac eiddo ar brydles yn rhaglen waith y dyfodol ar gyfer 2024/25 i ddeall y meysydd gwariant hyn ymhellach.

## CRYNODEB

- 24 Roedd yr asesiad cynllunio cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod mis Chwefror 2023 yn nodi y byddai angen cynnydd o £6m i £50.4m ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r tabl isod yn cadarnhau bod y gwaith cychwynnol a wnaed fel rhan o gynllunio cyllideb manwl wedi nodi pwysau anochel pellach, sydd wedi cael eu lliniaru ers hynny drwy waith trylwyr a chydwybodol y Gweithgor. Mae'r asesiad drafft terfynol yn ofyniad cyllidebol o £49.194m, sy'n cynrychioli cynnydd o 10.8% yn ardoll yr awdurdod lleol. Ar gais y Gweithgor, mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi arbedion pellach i leihau'r gofyniad cyllidebol neu'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael y gellir eu defnyddio i ariannu gwariant anghylchol.
- 25 Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r gostyngiadau o £1.912m a nodwyd drwy waith y Gweithgor.

£'m	23/24	Chwef-23	Hyd-23	Rhag-23	Gostyngiadau drwy Graffu ar y Gyllideb
<b>Gweithwyr</b>	31.826	35.312	35.729	35.209	-0.520
<b>Nad yw'n gyflog ac Ariannu Cyfalaf</b>	13.567	16.055	16.321	15.054	-1.267
<b>Incwm</b>	-0.999	-0.944	-0.944	-	1.069
<b>Cyfanswm</b>	<b>44.394</b>	<b>50.423</b>	<b>51.106</b>	<b>49.194</b>	<b>-1.912</b>
<b>% Cynnydd</b>		13.5%	15.1%	10.8%	

## GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag Amcanion Gwelliant a Llesiant yr Awdurdod. Mae'n adrodd ar hyfywedd ariannol yr Awdurdod.
Cyllideb	Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol nodi gofyniad cyllidebol o £50.4m. Yn dilyn y gwaith cynllunio manwl yr asesiad presennol yw £49.194m.
Cyfreithiol	Mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub ddyletswydd gyfreithiol i osod cyllideb gytbwys yn seiliedig ar ragdybiaethau cynllunio realistig.
Staffio	Mae dros 70% o'r gwariant yn ymwneud â chostau staff ac felly mae'n ffactor materol wrth ystyried sefydlogrwydd ariannol yn y dyfodol. Mae'r risgiau a nodwyd gan y Prif Swyddog Tân yn cynnwys trafodaethau cyflog parhaus yn ogystal â'r angen i recriwtio staff dyletswydd ar alw ymhellach ac adeiladu gwytnwch corfforaethol.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg	Bydd y materion hyn yn cael cynnwys mewn cynigion gosod cyllideb.
Risgiau	Amlinellir y risgiau a'r ansicrwydd allweddol i gyllideb 2024/25 yn Atodiad 1.

Aseiad cynllunio ariannol cychwynol 2024/25

£'m	2023/24	Diffyg	Dyfarniad Cyflog	Darpariaeth FPS	Chwyddiant a Thwf	Cyfraddau Llog	Canolfan Hyfforddi	Cyfanswm 2024/25
<b>Cyflog</b>	31.824	1.745	1.343	0.400				35.312
<b>Nad yw'n gyflog</b>	10.384	0.200			0.741			11.325
<b>Ariannu Cyfalaf a Llog</b>	3.130					0.500	1.1	4.730
<b>Incwm</b>	-0.944							-0.944
<b>Ardoll</b>	<b>44.394</b>	<b>1.945</b>	<b>1.343</b>	<b>0.400</b>	<b>0.741</b>	<b>0.500</b>	<b>1.100</b>	<b>50.423</b>

**Crynodeb o'r rhagdybiaethau a risgiau cynllunio**

Pennawd	Rhadgybiaethau cynllunio a ddefnyddir wrth bennu cyllideb	Risgiau/Ansicrwydd
<p>Costau gweithwyr</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Lluniwyd y cyllidebau staffio ar y modelau staffio sydd eu hangen i gyflawni Opsiwn 1.</li> <li>• Ar adeg pennu'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 doedd y dyfarniadau cyflog cenedlaethol ar gyfer diffoddwyr tân ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022/23 ddim wedi eu cwblhau. Roedd y gyllideb derfynol ar gyfer 2023/24 yn tybio 5% a 4% yn y drefn honno, ond setlwyd y dyfarniad cyflog gwirioneddol ar 7% a 5%. Mae'r costau uwch sy'n gysylltiedig â hyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb sylfaenol ac mae asesiad cynllunio o 4% ar gyfer dyfarniadau cyflog cenedlaethol yn 2024/25 wedi'i wneud i'r holl staff.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid yw'r dyfarniadau cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol ar gyfer 2024/25 wedi'u cytuno ond ar gyfer pob pwynt canran uwchben yr asesiad cynllunio o 4% mae'r risg ariannol oddeutu £0.34m</li> <li>• Mae cynllun y gyllideb yn tybio lefelau arferol o weithgarwch. Os bydd llw o ddigwyddiadau, bydd pwysau'n codi ar y gyllideb. Y dybiaeth yw y byddai'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei defnyddio yn y lle cyntaf.</li> <li>• Gwnaed prisiad cynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn ystod 2020 ac mae'r canlyniadau dros dro yn nodi cynnydd sylweddol gyda phwysau cost posibl o £0.7m. Mae'r asesiad cynllunio presennol yn rhagweld y bydd cymorth ariannol yn cael ei dderbyn i liniaru'r cynnydd hwn yn rhannol er nad yw hyn wedi'i gadarnhau eto. Mae risg ariannol gweddilliol o £0.3m yn bodoli.</li> </ul>

Pennawd	Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir wrth bennu cyllideb	Risgiau/Ansicrwydd
Nad yw'n gyflog	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi cadarnhau y bydd y cyllidebau nad ydynt ar gyflog yn cael eu llunio ar fodolau cyflenwi gwasanaethau presennol, wedi'u diweddarau ar gyfer canlyniad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Mae'r galw ar y gyllideb nad yw ar gyflog yn cynyddu ymhellach yn sgil effaith chwyddiant o fewn cytundebau presennol ac yn y dyfodol a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi mewn nifer o feysydd beirniadaeth ar fusnes. Mae'r rhain yn cynnwys cyflenwi offer diffodd tân a dod o hyd i rannau newydd ar gyfer cerbydau gweithredol.</li> <li>Mae costau na ellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â materion iechyd a diogelwch penodol i'r diwydiant wedi'u cynnwys o fewn y gyllideb nad yw'n talu. Mae'r rhain yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â rheoli halogion ar gyfer ein diffoddwyr tân gweithredol yn dilyn gwaith cenedlaethol.</li> <li>Mae cyllidebau wedi'u llunio gan ddefnyddio gwybodaeth a barn broffesiynol rheolwyr cyllideb a rhwymedigaethau cytundebol sylfaenol, ond mae rhywfaint o waith amcangyfrif o anghenraid yn rhan ohonynt. Lle gellir mesur pwysau'r costau, mae'r rhain wedi cael eu nodi a'u cynnwys ar wahân.</li> <li>Yn ystod 2023/24 fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddileu ei chefnogaeth ariannol o £0.4m ar gyfer y rhwydwaith cyfathrebu gwasanaethau brys cenedlaethol presennol (Firelink). Mae pris llawn y contract o £1m bellach yn cael ei ariannu'n uniongyrchol o gyllid craidd. Oherwydd natur sefydlog y contract hwn, ni ellir osgoi'r costau hyn ac mae'r contract yn cynnwys<sup>1</sup> cynnydd blynyddol mewn chwyddiant.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflog ac yn ymdrechu i reoli pwysau'r costau o fewn y gyllideb arfaethedig, mae hwn yn parhau i fod yn risg oherwydd y pwysau parhaus ar y gadwyn gyflenwi sy'n deillio o gynnydd mewn prisiau a phroblemau o ran argaeledd. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei rheoli'n ofalus ond oherwydd ansefydlogrwydd sylweddol, nid yw'n bosibl mesur yr effaith yn llawn.</li> <li>Mae cost nwy a thrydan wedi bod yn bwysau o ran cost hysbys ers 2022/23 oherwydd pwysau o ran cost yn fyd-eang. Mae'n ymddangos bod y sefyllfa wedi sefydlogi ac mae'r gyllideb ar gyfer 2024/25 yn seiliedig ar amcangyfrifon gorau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae anwadadwrwydd yn y farchnad yn parhau ac mae hyn yn dal i fod yn ansicrwydd a risg hysbys.</li> <li>Nid yw darpariaeth benodol wedi'i gwneud o fewn y gyllideb ar gyfer lleihau carbon ond mae wedi'i chynnwys o fewn costau digyflog a ragwelir. Er enghraifft, mae'r gwaith o symud i ffwrdd o gerbydau diesel wedi'i gynnwys yng nghostau fflyd y dyfodol.</li> </ul>

Pennawd	Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir wrth bennu cyllideb	Risgiau/Ansicrwydd
Cyllid Cyfalaf	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r gofyniad ariannu cyfalaf ar gyfer 2024/25 yn cynnwys y tâl refeniw ar gyfer y ddarpariaeth refeniw isaf ar gyfer asedau presennol ac amcangyfrif o'r taliadau llog sy'n codi o fenthyca. Mae'r gofyniad ariannu cyfalaf ar gyfer 2023/24 yn cael ei ddylanwadu gan wariant cyfalaf hanesyddol, yr angen i fenthyg ar gyfer rhaglen gyfalaf 2023/24 ac effaith y cynnydd mewn cyfradd llog wrth ail-ariannu benthyciadau sy'n aeddfedu.</li> <li>Bydd yr asesiad cynllunio cychwynnol yn tybio y bydd yr holl fenthyca yn y dyfodol ar y gyfradd gyffredinol y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar adeg gosod y gyllideb.</li> <li>Mae'r cynllun cyfalaf bellach yn eithrio costau posibl sy'n gysylltiedig â chanolfan hyfforddi newydd. Ar hyn o bryd nid yw'r Awdurdod wedi ystyried yr achos busnes ac, felly, tybir y bydd costau cyfalaf yn codi o 2025/2026 ymlaen.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn achosi risg sylweddol o ystyried yr ansicrwydd economaidd ar hyn o bryd. Bydd gwaith modelu ariannol yn cael ei wneud er mwyn asesu sensitifrwydd sefyllfa ariannol a pherfformiad yr Awdurdod i gynnydd pellach mewn cyfraddau llog a bydd yn cael ei adrodd fel rhan o'r broses o osod y gyllideb.</li> <li>Nid yw amseriad unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chanolfan hyfforddi newydd yn hysbys ar hyn o bryd gan nad yw'r achos busnes wedi'i ystyried gan yr Awdurdod. Er na ragwelir y bydd unrhyw waith adeiladu yn dechrau yn ystod 2024/25, efallai y bydd angen gwneud darpariaeth ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio manwl pe bai cymeradwyaeth yn cael ei roi.</li> </ul>
Incwm	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae cyllidebau incwm wedi cael eu hadolygu a'u gosod yn unol â blynyddoedd blaenorol.</li> <li>Gostyngodd incwm grant Llywodraeth Cymru yn sylweddol yn ystod 2023/24 oherwydd dileu'r Grant Firelink (£0.4m) ac ymgorffori Grant Scape (£1.08m) i'r Grant Cefnogi Refeniw a delir i awdurdodau lleol.</li> <li>Mae'r gyllideb ddrafft yn tybio y bydd gweddill arian grant Llywodraeth Cymru yn cael ei dderbyn ar lefelau 2023/24.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Nid oes unrhyw risgiau penodol wedi'u nodi yn ychwanegol at yr incwm grant gan Lywodraeth Cymru na ragwelir cynnydd chwyddiant ar ei gyfer.</li> </ul>

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**  
**Gweithgor Craffu ar y Gyllideb**

**CYLCH GORCHWYL /TERMS OF REFERENCE**

<b>1. ENW'R CYFARFOD / NAME OF MEETING</b>	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru - Gweithgor Craffu ar y Gyllideb
<b>2. CADEIRYDD / CHAIRPERSON</b>	Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
<b>3. IS-GADEIRYDD / VICE-CHAIRPERSON</b>	Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio
<b>4. YN ATEBOL I / REPORTS TO</b>	Y Pwyllgor Archwilio
<b>5. AMLDER CYFARFODYDD / FREQUENCY OF MEETINGS</b>	Pedwar cyfarfod penodol: - 04 Hydref 2023 - 19 Hydref 2023 - 06 Tachwedd 2022 - 24 Tachwedd 2022
<b>6. FERSIWN A DYDDIAD / VERSION AND DATE</b>	Fersiwn 1  1 Hydref 2023

### **7. PWRPAS Y CYFARFOD / PURPOSE OF THE MEETING**

Mae'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb yn weithgor dan arweiniad Aelodau sy'n cynnwys Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio, gyda chefnogaeth Trysorydd yr Awdurdod.

Gydag Aelodau yn cynrychioli pob un o'r awdurdodau lleol cyfansoddol, diben y gweithgor yw gweithredu fel swyddogaeth graffu mewn perthynas ag agweddau ariannol yr Awdurdod Tân ac Achub. Yn benodol, bydd y gwaith craffu yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod ac yn ei ystyried ac yn cael dealltwriaeth gyffredin o'r asesiad ariannol a'r risgiau.

### **8. AMCANION Y CYFARFOD / OBJECTIVES OF THE MEETING**

- Darparu gwaith craffu mewn perthynas â phob maes gwariant, gan geisio eglurhad a sicrwydd yn ôl yr angen.
- Cael dealltwriaeth ddigonol o'r materion sylfaenol sy'n berthnasol i agweddau ariannol yr Awdurdod Tân ac Achub a'i allu i gyflawni ei amcanion.
- Ystyried cyflawnrwydd a rhesymoldeb yr asesiad cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 a'r risgiau cysylltiedig.
- Ystyried gwytnwch cynigion y gyllideb a gallu'r Awdurdod i gyflawni arbedion yn erbyn y cynigion cyllideb hyn.
- Cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad llawn i'r Pwyllgor Archwilio fel rhan o'r broses pennu cyllideb flynyddol.
- Ymdrin â materion allweddol / dadleuol yn ddigon trylwyr i ganiatáu aelodau'r Gweithgor i gyfathrebu ar hynny gydag aelodaeth ehangach Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac aelodau Cabinet eu ALLau, ac ati.

<b>9. AELODAU / MEMBERS</b>	
<b>Swydd / Position</b>	<b>Yn Cynrychioli / Representing</b>
Cadeirydd, y Cynghorydd Mark Young Is-Gadeirydd, Y Cynghorydd Gwynfor Owen Y Cynghorydd Jeff Evans Y Cynghorydd Austin Roberts Y Cynghorydd Tina Claydon Y Cynghorydd Bryan Apsley	Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Sir Gwynedd Cyngor Sir Ynys Môn Cyngor Sir Conwy Cyngor Sir y Fflint Cyngor Sir Wrecsam
Dafydd Edwards, Trysorydd	Cynghorydd proffesiynol i'r Awdurdod

<b>10. RHANDEILIAID / STAKEHOLDERS</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Awdurdod Tân ac Achub</li> <li>• Awdurdodau Lleol</li> <li>• Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth</li> </ul>

<b>11. TREFNIADAU GWEITHREDU / OPERATING ARRANGEMENTS</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd gwaith cychwynol y gweithgor yn cael ei gynnal dros bedwar cyfarfod a drefnwyd ar gyfer Hydref a Thachwedd 2023;</li> <li>• Mae dyddiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw;</li> <li>• Mae'r Cadeirydd yn gofyn am eitemau agenda ymlaen llaw;</li> <li>• Gellir cynnal cyfarfodydd yn gorfforol neu ar-lein yn dibynnu ar yr amgylchiadau;</li> <li>• Mae camau gweithredu a phenderfyniadau allweddol yn cael eu nodi a'u dosbarthu ar gyfer cynnydd ar ôl y cyfarfod.</li> </ul>

<b>12. ADDASU'R CYLCH GORCHWYL / AMENDING THE TERMS OF REFERENCE</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei adolygu ar ôl i'r pedwar cyfarfod cyntaf ddod i ben i benderfynu ar unrhyw ofyniad yn y dyfodol.</li> </ul>

Adrodd i'r	<b>Pwyllgor Archwilio</b>	
Dyddiad	<b>18 Rhagfyr 2023</b>	
Swyddog Arweiniol	<b>Helen MacArthur – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol</b>	
Swyddog Cyswllt	<b>Helen Howard</b>	
Pwnc	<b>Adroddiad Rheoli Trysorlys Ch2 2023/24</b>	

## PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar weithgarwch rheoli trysorlys a chydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus rheoli trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 30 Medi 2023.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Ym mis Rhagfyr 2003, mabwysiadodd yr Awdurdod *Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer (2021)* (Cod CIPFA) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo, o leiaf, adroddiadau alldro blynyddol a lled-flynyddol ar reoli'r trysorlys.
- 3 Roedd Cod CIPFA hefyd yn cynnwys gofyniad newydd i adrodd yn chwarterol ar ddangosyddion rheoli trysorlys o fis Ebrill 2023. Mae'r dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhai trysorlys wedi'u hymgorffori yn adroddiad monitro refeniw a chyfalaf arferol yr Awdurdod.
